**CYNGOR CYMUNED LLANBERIS**

**COFNODION CYFARFOD MIS MAWRTH 2023**

**1 CROESO**
Cofnodion cyfarfod misol rheolaidd y Cyngor am 7yh nos Fercher yr 8fed o Fawrth, 2023 yn Y Ganolfan, Llanberis. Estynnwyd croeso i'r aelodau gan GE yr Is Gadeirydd a oedd yn y gadair am fod LlHP wedi rhybuddio y gallai fod yn hwyr oherwydd materion teuluol.

**2 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Gwilym Evans, Iwan Harding, Heather L Jones, Nia Jones, Cyng. Kim Jones, Louise Price, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard,
***Ymddiheuriadau:*** Kevin Morris Jones
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**3 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**4 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher yr 8fed o Chwefror, 2023 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: EB / TT.

**5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**
***1. Llwybr Pren Nantucha':***
Er na chafwyd ymweliad gan un o swyddogion Cyngor Gwynedd (CG) roedd y Clerc wedi cael gair ac un ohonynt gan fynegi anfodlonrwydd y cyngor hwn fod y llwybr yn dal heb ei drin ac mewn cyflwr peryglus. Yn ôl y swyddog mae CG yn ystyried beth i'w wneud nesaf ac wedi cael trafodaeth gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE).
***2. Panel Penodi Clerc:***
Adroddwyd fod 4 wedi dangos diddordeb yn y swydd ond nad oedd neb wedi gwneud cais amdani erbyn y dyddiad cau. Ond roedd un ohonynt wedi dweud y byddai wedi anfon cais ond oherwydd amgylchiadau arbennig iddo fethu. Roedd wedi sicrhau'r Clerc ei fod a diddordeb a phenderfynwyd gofyn iddo anfon cais erbyn dechrau yr wythnos nesaf, ac os oedd y cais yn un cymwys yna i'r Panel gyfweld yr ymgeisydd. Y panel fyddai'n penderfynu ar gymhwyster yr ymgeisydd, ac os yn fodlon yn argymell i'r Cyngor i wneudu penodiad. Ni ddatgelwyd enw'r un oedd wedi dangos diddordeb.
Teimlai HLJ nad oedd yn gefnogol i'r ffordd o weithredu, credai y dylid ail hysbysebu am nad oedd yn teimlo fod y broses yn dryloyw. Mewn pleidlais a gofnodwyd roedd pawb ac eithrio HLJ o blaid gweithredu fel yr amlinellwyd. Cynnig ac eilio: IO / EB.
***3. Cyrsiau Cynghorwyr:***
Adroddwyd fod NJ, LP a IH wedi bod ar gwrs hyfforddi gan Un Llais Cymru (ULlC). Fel aelodau newydd roedd NJ a LP yn teimlo fod y cwrs wedi bod o werth.
***4. Lwfans Aelodau:***
Erbyn hyn cafodd y Clerc ar ddeall fod gan aelodau hawl i dderbyn neu wrthod lwfans. Mae'r lwfans eleni yn £150 yr un a bydd yn rhaid i bawb arwyddo ffurflen i nodi a ydyn nhw yn derbyn neu wrthod yr arian. Paratowyd ffurflenni gan y Clerc i'r aelodau eu llenwi, ac i nodi a oeddynt yn derbyn neu wrthod y Lwfans.
***5. Gwaelod Llwybr yr Wyddfa (Maes Derlwyn):***
Y giat newydd a'r arwydd heb gyrraedd, ond gwaith wedi ei wneud gan APCE yn Cadair Ellyll ar y llwybr lle'r oedd dwy wal i fynedfa wedi eu hadeiladu, ac yn werth eu gweld.
***6 Trwyddedu Brooke House, Stryd Fawr:***
Adroddodd y Clerc i'r Cyng.KJ ac yntau fynychu a chyflwyno tystiolaeth i gyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu. Penderfynodd y Pwyllgor i roi trwydded gwerthu alcohol i'r busnes, ond dim ond o 08.00 hyd 24.00, er fod y siopwr yn wreiddiol wedi gofyn am lawer mwy. Mae'r drwydded yma o ran oriau yn debyg i un y siopau eraill, a dyna oedd dymuniad y Cyngor hwn.

***7 Y Feddygfa:***
Er i'r Clerc ysgrifennu, yn fuan ar ôl y cyfarfod diwethaf, at Reolwr y Feddygfa yn mynegi pryder am y gyfundrefn ffonio a sicrhau apwyntiad gyda'r meddygon yn y bore ni chafwyd ateb. Yn ychwanegol fe anfonwyd ebost hefyd i atgoffa am ddyddiad y cyfarfod hwn, ond i ddim diben, chafwyd dim ateb. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu eto.
***8 Y Cwch Llechi:***
Cafwyd ateb oddi wrth Bennaeth Amgueddfa Lechi Cymru i'r ymholiad ynglyn a lleoliad y cwch llechi hynafol a godwyd o'r llyn ac a fu'n cael ei arddangos yn Oriel Eryri cyn i honno gau**.** Mae'r cwch yma, a godwyd o'r llyn yn 1979 wedi ei dyddio i'r cyfnod rhwng 1547 a 1549, ond nid oes tystiolaeth ei bod wedi cario llechi. Yn ei waelod roedd baw ceffylau a geifr, gwair a mwsogl ac ychydig o wlân a siarcol sy'n awgrymu mai cwch 'cyffredinol' oedd hwn. Mae na gwch 'cario llechi' yn yr Amgueddfa yn Llanberis a ddarganfuwyd yn 1977 ac a godwyd efo llwyth o lechi o Lyn Padarn yn Ionawr 1978. Credir iddo suddo rhywbryd rhwng 1788 a 1824 ac mae'n cael ei gadw yn y Cwt Loco, mae angen peth gwaith cyn y bydd yn barod i'w arddangos a chredir y gellir gwneud hynny wrth ddatblygu'r Amgueddfa yn y blynyddoedd nesaf. Yn ôl Elen Roberts mae cofnod yn 1787 fod y chwarel yn talu i 'boatmen, mae'n bosib fod llechi'n cael eu cario ar y llyn cyn hynny, ond does dim tystiolaeth o'r 16eg ganrif.

**6 MATERION ERAILL:**
***1. Gwaith Ffordd - National Grid a Morgan Sindall:***
Yn dilyn sawl sylw gan drigolion nad oes neb yn gwrando ar gwynion ynglyn a'r gwaith ffordd rhwng Llanberis a Pentir a'r 5 set o oleauadau cafwyd trafodaeth fer. Mae rhai yn honni fod llai yn ymweld a Llanberis, yn enwedig am y dydd ac wrth gwrs mae'r anhwylustod yn creu rhwystredigaeth er fod y mwyafrif yn sylweddoli pa mor bwysig ydi'r gwaith. Penderfynwyd gofyn i gynrychiolwyr o'r ddau gwmni i ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor. Newidir y dyddiad i nos Fawrth y 4ydd o Ebrill gan ddechrau am 6.30 a gobeitho cwblhau gwaith y Cyngor erbyn 7.30 er mwyn croesawu'r ymwelwyr. Fe hysbysir hefyd fod croeso i'r cyhoedd i fod yn bresennol, ond iddynt sylweddoli mai cyfarfod y Cyngor yw hwn ac nid cyfarfod cyhoeddus.
***2. Defaid eto:***
Unwaith eto daeth cwynion o bob cwr o Lanberis am ddefaid crwydrol, ac am gynydd sylweddol yn eu nifer. Derbyniwyd nifer o adroddiadau am flodau a gerddi yn cael eu difetha ac am faw defaid ar lwybrau tai. Awgrymwyd anfon gair at Swyddog Cefn Gwlad, Heddlu'r Gogledd i holi a fedrai ef wneud rhywbeth a hynny ar frys cyn bod defaid a'u hwyn yn dod i'r pentref. Hefyd penderfynwyd estyn gwahoddiad i'r ffermwr sydd a'r mwyafrif o ddefaid yn y pentref i ddod i gyfarfod mis Mai o'r Cyngor.

**7 GOHEBIAETH:**
***1. Un Llais Cymru (ULlC)***
Nodyn i atgoffa Cynghorau fod ganddynt ddyletswydd statudol o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (2016) ***'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas a Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol'***
Hefyd er mwyn cydymffurfio dylai Cyngor ***'wreiddio'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau cynnar a'u cynlluniau busnes, gan gynnwys unrhyw bolisiau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol'.***
Yn unol a'r Ddeddf rhaid wrth adroddiad bob tair blynedd, gyda'r diweddara yn adrodd yn ôl am y cyfnod sy'n diweddu ar y dydd olaf o Ragfyr 2022 Mae Swyddog Lleoedd Lleol ULlC yn cynnig cymorth i unrhyw Gyngor sy'n dymuno hynny.
***2.CG - Pwyntiau Gwefru Ceir:***
Llythyr o Ad AMgylchedd CG yn nodi i'r Cyngor lwyddo i ddenu arian grant i osod pwyntiau gwefru trydanol ar gyfer moduron mewn sawl ardal yn y sir, gan gynnwys Llanberis.
***3a. CG - Ras yr Wyddfa - Cau ffordd:***
Ymgynghoriad ynglyn a bwriad i gau ffordd A4086 ynghyd a nifer o strydoedd ar gyfer y Ras ar y 15fed o Orffennaf eleni rhwng 13.50 a 16.00. Awgrymwyd fod hynny yn ormod o amser ac y dylai'r drafnidiaeth gael ei rheoli fel bod na symud cerbydau i un cyfeiriad ar y tro am yn ail yn ystod y prynhawn.
***3b. CG - Ras Ultra Trail Eryri (Snowdonia):***
Cais arall i gau ffyrdd y tro yma ar y 12fed a'r 13eg o Fai. Cau darn o'r A4086 rhwng cyffordd y ffordd i Bont y Bala a'r gylchfan ger Gwesty Fictoria ac ymlaen ar hyd Rhes Fictoria a Rhes y Faenol. Amseroedd 12.55 - 13.10 ar bnawn Gwener y 12fed yna tri cyfnod ar y 13eg. Rhwng 4.55 a 5.10, rhwng 7.55 a 8.10 a 9.55 a 10.10. Doedd dim gwrthwynebiad i hyn am eu bod yn gyfnodau byr, ond gobeithir y bydd CG yn atgoffa'r cystadleuwyr i ymddwyn yn dawel a phriodol yn ystod oriau mân y bore.
***4. Y Wefan:***
Cafwyd ar ddeall y bydd codiadau bychan yn y taliadau am weinyddu'r We o ddechrau Ebrill.

***5. Diolch am 20 / Thanks fpr 20:***
Nodyn fod y mudiad yn croesawu'r symudiad i arafu trafnidiaeth mewn rhai mannau, ac y bydd yn gwneud ei orau i ledaenu gwybodaeth am y newidiadau.
***6. CG - Llinellau Melyn Dwbl - Llainwen uchaf:***
Llythyr oddi wrth CG yn holi a oedd cytundeb ynglyn a lleoliad y llinellau melyn y gofynnwyd amdanyn yn Llainwen Ucha' dro yn ôl. Roedd yr oedi oherwydd gwrthwynebiad lleol. Adroddodd y Cyng KJ iddi gyfarfod nifer o drigolion a dod i gytundeb a fyddai gobeithio yn datrys y broblem, lle mae parcio bler yn golygu fod cerbydau argyfwng yn methu a chyrraedd y stryd. Cytunwyd i KJ gysylltu a'r swyddog yn CG er mwywn cael y llinellau cyn gynted a phosib.
•• Wrth son am linellau melyn gofynwyd a fyddai modd i CG ail baentio llinellau atal parcio ger giat Ysgol Dolbadarn. Addawodd Cyng KJ holi CG.
***7. Cymdeithas Pysgota Seiont, Gwyrfai a Llyfni - chwyn Llyn Padarn:***
Yn ôl llythyr a dderbyniwyd oddi wrth HH, ysgrifennydd y Gymdeithas mae pryder sylweddol ar ôl iddi ddod yn amlwg fod *Lagarosiphon major* planhigyn dŵr hynod o ymwthiol wedi ei ddarganfod yn y llyn. Mae'r planhigyn yn cael ei ystyried yn un peryglus, sy'n ymledu yn gyflym, ac yn yr un dosbarth a planhigyn fel llysiau'r dial (Japanese Knotweed) sydd a rheolau llym ynglyn a'i ddifa a'i symud. Yn ôl y Gymdeithas mae gofyn difa'r planhigyn cyn gynted ag sy'n bosib cyn iddo ddifetha'r llyn o ran pysgota ac amryw o weithgareddau eraill a cyn iddo fynd i lawr yr afon. Yn Iwerddon mae'r planhigyn yma wedi difetha Loch Corrib yn llwyr. Awgrymwyd ysgrifennu at CG a CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) i rannu pryderon y Gymdeithas Bysgota ac i ofyn iddynt weithredu.
***8. CG - Arwydd Stryd y Farchnad:***
Roedd y Cyng KJ wedi derbyn nodyn oddi wrth un o swyddogion CG yn nodi y byddai swyddogion y Cyngor yn edrych ar leoliad yr 'arwydd dim mynediad' sydd i fod i atal gyrrwyr a cherbydau rhag dod o'r ffordd osgoi i'r stryd ac yna i'r Stryd Fawr. Credir fod yr arwydd yn rhy uchel ac felly ddim yn amlwg i yrrwyr, ac mai dyna pam y mae nifer yn dod i'r stryd y ffordd anghywir.
***9. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:***
Yn yr Adroddiad yma ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2023-24 dywedir na fydd yn orfodol ar Gynghorwyr i dderbyn Lwfans, ac roedd hyn wedi ei gadarnhau i'r Clerc mewn sgwrs gyda un o swyddogion ULlC. [Gweler 5.4 uchod]

**8 CYNLLUNIO:**
**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:**
**NP3/15/102C -** *Gwaith peirianyddol i greu storfa ddiogel sy'n rhanol o dan ddaear* **- Coed gwydr, Nantperis LL55 4UL**
Cytunwyd gan mai rhybudd yn unig a gafwyd ac nad oedd y cynlluniau eto i'w gweld ar Wefan APCE,y byddai'r Clerc yn eu hanfon ar ebost yn y dyddiau nesaf. Byddai yntau wedyn yn cofnodi unrhyw sylwadau a'u hanfon at Adran Cynllunio APCE.

**9 MATERION ARIANNOL:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Chwefror, 2023**
**Cyfrif Cyfredol**: £51,055.24 **Cyfrif Cadw**: £66.75

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**CYFANSWM ... ... £24,117.37**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/01/2023 a 28/02/2023:**
**CYFANSWM ... ... £795.00**
Cynnig ac eilio y materion ariannol: RhaG / KJ.

**10 ADRODDIADAU ERAILL:**
*1. Grwp Adfywio:*
Cafwyd adroddiad gan y Clerc o gyfarfod diweddar o Grwp Afywio Llanberis. Trafodwyd Trafnidiaeth a Parc Padarn, yr Amgueddfa, Digwyddiadau, Safle Treftadaeth ac fe nodwyd fod cronfeydd ar fin cael eu hagor i hybu ffyniant bro.

**11 CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fercher y 12fed o Ebrill, 2023 am 7.00yh yn Y Ganolfan. [Ni chynhaliwyd y cyfarfod ar y 4ydd o Ebrill fel y gobeithiwyd.]

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:** Cadeirydd: Llinos Haf Pritchard Clerc: Dei Tomos

Dyddiad: 12fed o Ebrill, 2023